# Gwaelod y Garth

Cylchlythyr Wythnosol / Weekly Newsletter

18.07.2025




## Dathlu'r flwyddyn! ~ Celebrations!

A dyna ni – fe ddaeth y tymor, a'r flwyddyn i ben! Cawsom wythnos o fwynhau ac o ddathlu, o ffarwelio a chreu atgofion. Bu Dosbarthiadau 2C a 2E ar daith i Barc Cefn Mabli – a joio mas draw! Cawsom wledd i ddathlu gyda hufen iâ i bawb yn heddiw. Diolch i Danielle a Mathew Griffiths ac eu rhodd *hynod* garedig i bawb!

Mae disgyblion Blwyddyn 5, eto eleni, wedi mynychu sesiynau wythnosol gyda'r *Friday Girls* yn crefftio, pobi a mwy. Mae hwn yn nodwedd arbennig iawn o gwricwlwm cymunedol yr ysgol sydd yn cael ei fwynhau yn fawr gan bawb ym Mlwyddyn 5. Cawsom gyfle hyfryd i ddiolch i'r *Friday Girls* heddiw – diolch o galon!

Braf yw cyhoeddi bod podcast ola'r flwyddyn wedi'i recordio gyda'r Dreigiau Doeth i ddathlu ein llwyddiant yn ennill **Gwobr Aur y Siarter Iaith**. Diolch i Mr Owen ac i Mrs Darch am eu gwaith, a llongyfarchiadau i bawb! Mae werth gwrando yn sicr! **Pennod 4: Gwobr Aur y Siarter Iaith**

Cafodd ein disgyblion Blwyddyn 6 wythnos hyfryd yn creu atgofion melys newydd cyn hedfan nyth Gwaelod y Garth. Wedi taith hwyl i ganolfan hamdden Abertawe Dydd Llun, roedd yr emosiwn yn uchel wrth i Flwyddyn 6 gynnal Gwasanaeth Ymadael arbennig iawn, a gwneud hynny gyda pherfformiadau odidog bob un. Ac i gloi'r wythnos, fel ag sydd yn draddodiad, cafwyd gêm rownderi rhwng disgyblion B6 a staff, gyda'r cystadlu yn frwd! Diolch am bob cyfraniad gwerthfawr i'r ysgol dros y blynyddoedd, Blwyddyn 6. Pob lwc, a byddwch wych ar eich taith!

Ffarwel hefyd i'r staff sydd yn ein gadael. Rydych bob un yn gadael bwlch mawr ar eich holau. Ar ran holl staff yr ysgol, diolch i chi, ein teuluoedd, am bob cefnogaeth eleni. Dymunwn gwyliau haf hir a hapus iawn i chi bob un!

✻ ✻ ✻ ✻ ✻ ✻

Somehow, the term and the year came to an end! We had a week of fun and celebration, of goodbyes and new memories. Classes 2C and 2E had a memorable and hugely fun trip to Parc Cefn Mabli. Today, we had a huge treat with **ice cream for everyone**. Thank you to Danielle and Mathew Griffiths for this *very kind* gift!

Year 5 pupils have attended weekly sessions with the Friday Girls again this year enjoying crafting, baking and many more activities. This is a very special feature of our school's community curriculum which is always enjoyed by Year 5 pupils. Today, we had a special opportunity to thank the Friday Girls – diolch yn fawr!

We can now announce that this year's final podcast has been recorded with the *Dreigiau Doeth* to celebrate our success with the **Gold Siarter Iaith Award**. Diolch to Mr Owen and Mrs Darch for their work, and congratulations to all - it's definitely worth a listen! **Podcast Pennod 4: Siarter Iaith**

Our Year 6 pupils had a special last week creating new memories at Gwaelod y Garth. Following a trip to Swansea's LC2 on Monday, the emotions were high as Year 6 held a poignant Leaver's Assembly, and what a performance! Diolch bob un. The week ended with the traditional Year 6 rounders game against the school, which ended a tight draw ☺ Diolch to all our Year 6 pupils for their valued contribution to our school throughout the years. Good luck, and shine brightly!

Finally, we bid farewell and diolch the staff who are leaving us. You leave a big hole having made such a difference. And to you as parents of our school, diolch for your support again this year. We wish you all a long and happy summer vacation!

Diolch i chi, disgyblion Blwyddyn 6 am eich cyfraniad arbennig i Ysgol Gwaelod y Garth!
Byddwch wych!

Diolch to you all, Year 6, for your special contribution to Ysgol Gwaelod y Garth!
Shine brightly!






Diolch yn fawr am bopeth, Mr Jones, Mrs Golding, Mrs Wade, a Mrs Jones! Pob lwc!



Diolch i'r Friday Girls am eu gwaith gyda Blwyddyn 5 eleni.
Thank you to the Friday Girls for their work with Year 5 this year.








Amelia's


PIC•COLLAGE


Cefn Mably